**Dyddiad:** **Dydd Mercher 3 Gorffennaf 2002**

**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl:** **Arolygaeth Plant a'r adroddiad drafft "Iechyd i bob Plentyn" (Hall 4)**

## Diben

1. I hysbysu'r Pwyllgor ynglyn â'r cynnig i sefydlu gweithgor i ystyried argymhellion 4ydd argraffiad arweiniad y Coleg Brenhinol Pediatreg a Iechyd Plant ar arolygaeth iechyd plant a'r ffordd i'w hybu yng Nghymru.

## Cefndir

2. Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth anghyson ynglyn â'r argymhellion ar arolygaeth plant sydd yn yr adroddiad drafft hwn. Mynegwyd pryder na fyddai efallai yn llesol i rai teuluoedd pe newidid y patrwm arolygaeth ar ôl 4 mis oed o system sy'n cynnwys galwadau rheolaidd i un sy'n cael ei benderfynu trwy drafodaeth gyda'r teulu.

3. Mewn rhai ardaloedd yng Nghymru mae canllawiau eisoes wedi'u datblygu sydd, nid yn unig yn cyfeirio at yr adroddiad drafft, ond hefyd yn talu sylw i brofiad lleol.

## Y sefyllfa ar hyn o bryd

4. Awgrymir sefydlu gweithgor, yn cynnwys aelodau o'r Gwasanaeth ac o blith swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu cyngor ar ymarfer da yn y cyswllt Cymreig, a fydd yn dibynnu ar arweiniad y Coleg Brenhinol, profiad lleol, gwybodaeth am ffactorau cymdeithasol (gan gynnwys amddifadedd) a chan gymryd i ystyriaeth y newidiadau yn y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaeth yng Nghymru.

## Camau i'r Pwyllgor eu cymryd

5. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r papur.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**